Llywodraeth Cymru
Welsh Government

---

## Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 08 Mehefin 2018

---

**Yn bresennol:**
Yr Ysgrifennydd Parhaol (Cadeirydd)
Andrew Goodall
Desmond Clifford
Andrew Slade
Tracey Burke
David Richards
Gawain Evans
James Owen (Dirprwy PK)
Jeff Godfrey
Gillian Baranski
Sally-Ann Efstathiou (Dirprwy NP)
Ann Keane
Ellen Donovan
Jeff Farrar
Lynne Schofield
Helena Bird

**Yn mynychu:**
Jo Salway (Eitem 1)
Piers Bisson (Eitem 3)
Peter Ryland (Eitem 3)
Helen Morris (Eitem 4)

**Ysgrifenyddiaeth:**
Rob Jones

**Ymddiheuriadau:**
Natalie Pearson (NP)
David Richards
Peter Kennedy (PK)
Jeff Godfrey

### Cyflwyniad

Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb a chyflwyno ei Hysgrifennydd Preifat newydd, Helena Bird, i gyfarfod cyntaf y Bwrdd.

### 1. Ffyniant i Bawb

1.1 Rhoes Jo Salway, Pennaeth Swyddfa’r Cabinet, ddiweddariad i'r Bwrdd ar *Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol*, yn benodol ar adborth gan Weinidogion y Cabinet ar y papur diweddaru a oedd wedi cael ei gyflwyno'n ddiweddar i'r Cabinet. Y prif negeseuon o'r trafodaethau hynny oedd:

- canolbwynt newydd a chlir ar weithredu yn erbyn y pum maes blaenoriaethol;
- Câi Statws Coch Melyn Gwyrdd ar y cynnydd yn erbyn amcanion ei adolygu gan y Gweinidogion bob Tymor Cynulliad;
- sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn dangos tystiolaeth o weithio'n effeithiol ar draws y llywodraeth, a bod yr arferion hyn yn ymwreiddio yn ei llywodraethiant a'i strwythurau mewn ffordd gynaliadwy ac amlwg.
- Sicrhau bod y canolbwynt ar gyflawni a chanlyniadau i ddinasyddion.
- Byddai papur diweddaru pellach yn mynd yn ôl i'r Cabinet ym mis Gorffennaf.

1.2 Mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi trefnu cyfarfod â'r Gweinidogion ac Arweinydd y Tŷ yn dilyn trafodaeth y Cabinet i fynd i'r afael â sylwadau ynghylch perfformiad y Gwasanaeth Sifil, ac i ddeall yn well y cyfyngiadau ar Weinidogion Cymru a'r rhwystredigaethau sy'n eu hwynebu. Caiff adroddiad ar ganfyddiadau i fynd i'r afael â'r sylwadau hyn ei gynhyrchu ac fe weithredir arno. Dywedodd hefyd y bydd adolygiad o'r System Cynllunio Busnes Corfforaethol er mwyn sicrhau ei bod yn effeithlon ac yn gyson.

**Cam gweithredu:** Cynllunio Busnes Corfforaethol i'w ystyried mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol. (Ysgrifenyddiaeth/ Swyddog Arweiniol)

1.3 Cydnabu’r Bwrdd bwysigrwydd dangos effeithiau cadarnhaol ar ddinasyddion o ganlyniad i'r Strategaeth erbyn 2021, a nodi ymhellach y byddai angen ystyried ymhellach y ffordd orau o fonitro ac olrhain cyflawni yn erbyn canlyniadau. Cytunodd y Bwrdd y dylai'r papur diweddaru sy'n cael ei baratoi i'r Cabinet gael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.

**Cam gweithredu:** Papur ar Ffyniant i Bawb i'w gyflwyno yng nghyfarfod mis Gorffennaf. (Jo Salway)

1.4 Trafododd y Bwrdd ffyrdd o wella gweithio ar draws y llywodraeth, a thanlinellodd yr Ysgrifennydd Parhaol sut y byddai Mesurau Rheoli Perfformiad newydd trwy raglen Dyfodol-Ymgysylltu-Cyflawni (FED) yn helpu i sicrhau bod y dull hwn yn ennill ei blwyf ar draws y sefydliad.

1.5 Cytunodd pawb ar ddefnyddioldeb Sesiynau Herio'r Cabinet wrth ganolbwyntio ar feysydd allweddol, ac wrth lunio Papurau Cabinet o ansawdd. Roedd yr Ysgrifennydd Parhaol am ddiolch i staff Swyddfa’r Cabinet am eu cymorth gyda'r sesiynau hyn. Nododd Ellen Donovan y gallai fod cyfleoedd i ddefnyddio profiad Cyfarwyddwyr Anweithredol yn y sesiynau hyn.

**Cam gweithredu:** Ystyried cyfraniad posibl Cyfarwyddwyr Anweithredol at sesiynau Herio'r Cabinet. (Ysgrifenyddiaeth/ Swyddog Arweiniol)

## 2. Adroddiad Cyllid

2.1 Cyflwynodd Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, yr adroddiad misol ar gyllid. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y pwysau cyllidebol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru yn 2018-19 a lefel y cronfeydd wrth gefn sydd ar gael ar gyfer cyllid posibl. Adroddodd Gawain hefyd ar:

- y balans cronfeydd wrth gefn a'i allu i liniaru yn erbyn pwysau posibl;
- pwerau newydd i godi trethi, a'r effaith bosibl ar y gyllideb tua diwedd y flwyddyn;
- mae pwysau'r disgwyliadau yn 2019/20 yn debygol o fod yn sylweddol uwch.

2.2 Mewn ymateb i gais gan Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, am ragolygon cywir ar gyfer y gyllideb, mae Gawain wedi ysgrifennu at bob Grŵp yn tanlinellu pwysigrwydd adrodd cywir ac amserol ym mis Medi.

## 3. Trefniadau Pontio’r UE: Papur Is-bwyllgor y Cabinet

3.1 Ymunodd Piers Bisson, Cyfarwyddwr Trefniadau Pontio Ewropeaidd, i roi'r newyddion diweddaraf am gynnydd y Pontio Ewropeaidd, yn enwedig o ran bod yn barod am Ymadael. Trafododd y Bwrdd y papur gan Is-bwyllgor y Cabinet a gyflwynwyd yn ddiweddar ar y mater, sy'n amlinellu'r pwysau allweddol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru. Roedd trafodaeth y Bwrdd yn cynnwys meysydd allweddol gan gynnwys:

- Cynhwysedd Deddfwriaethol;
- Datblygu Polisi, heriau a chyfleoedd;
- Sgiliau staff Llywodraeth Cymru, meithrin gallu yn fewnol trwy FED;
- Trefniadau ariannol, gan gynnwys terfynu Cyllid yr UE o bosibl;
- Adnoddau i Brexit, gan gynnwys cymorth i fusnesau allanol;
- Ansicrwydd trefniadau pontio a risgiau cysylltiedig “dim cytundeb”;
- Papurau Gwyn arfaethedig: *Brexit a'n Tir* a gyhoeddir ym mis Gorffennaf 2018.

3.2 Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Piers Bisson am y newyddion diweddaraf a dweud ei bod yn teimlo bod cryn barch i dîm Llywodraeth Cymru yn Whitehall. Mae'r DU wedi derbyn yn amodol y dyddiad cau a orfodwyd gan Michel Barnier i gytundeb Erthygl 50 gael ei wneud erbyn Hydref 2018, ac mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn gobeithio y bydd y rhagolygon a'r goblygiadau i Lywodraeth Cymru yn dod yn gliriach ar ôl y cyfnod hwn.

3.3 Rhoes Peter Ryland, Dirprwy Gyfarwyddwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'r newyddion diweddaraf am raglen Cronfeydd Strwythurol yr UE, a'r heriau a achosir gan Brexit. Mae'r tîm yn ceisio nodi digon o allu mewnol i ddatblygu polisi penodol Cymru, sy'n gydlynus ac yn gydnaws â pholisïau ehangach y DU. Mae yna gwestiynau sydd heb gael eu hateb o hyd sy'n peri risgiau strategol i gyllid y rhaglen, gan gynnwys:

- gwerth posibl gwarant Trysorlys CThEM os na cheir cytundeb;
- eglurdeb ynghylch a fyddai'r warant yn cwmpasu rhaglenni neu brosiectau unigol;
- y gyfradd gynllunio ffurfiol ar gyfer y gyfradd gyfnewid yw £1.17; er hynny, gallai gwamaliadau yn y gyfradd gyfnewid effeithio ar benderfyniadau cyllido yn y dyfodol.

Bydd adroddiad arfaethedig gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd i'w gyhoeddi ym mis Gorffennaf, yn tynnu sylw at y materion hyn.

**Cam gweithredu:** Bydd y diweddariad nesaf yn cynnwys dewisiadau lliniaru risg yn ymwneud â gwamaliadau posibl yn y gyfradd gyfnewid. (Peter Ryland)

## 4. Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft

4.1 Cyflwynodd Helen Morris, Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft. Mae'r Datganiad Llywodraethu yn ddatganiad gan yr Ysgrifennydd Parhaol, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn nodi sut y mae adnoddau yn y sefydliad yn cael eu rheoli. Mae'r Datganiad Llywodraethu'n cofnodi stiwardiaeth y sefydliad ac yn darparu teimlad o'i wendidau a'i allu i ymdopi â heriau.

4.2 Amlinellodd Helen y gwelliannau yn natganiad Llywodraethu eleni, a oedd yn cynnwys proses fwy trylwyr, gan gynnwys gwell tryloywder o ran ble mae yna ddiffygion, yn ogystal â nodi llwyddiannau. Dywedodd fod gwell

dilyniant o ran prosesu'r cyfrifon, ac y caiff set lawn o gyfrifon ei chyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Gorffennaf, gwelliant ar broses y llynedd. Mae'r holiadur rheolaeth fewnol (ICQ) wedi cael ei fireinio gyda chanolbwynt newydd ar sicrwydd, ac roedd yn cynnwys grid defnyddiol i nodi lefelau sicrwydd ar draws y Grŵp. Roedd sesiwn Asesu Sicrwydd a fynychwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol hefyd yn ddefnyddiol wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu. Mae'r templed ar gyfer Datganiadau Sicrwydd Cyfarwyddwyr Cyffredinol hefyd wedi cael ei gymeradwyo a bydd ffurflenni ar gyfer hyn yn cael eu hymgorffori yn yr iteriad nesaf o'r datganiad llywodraethu

**Cam gweithredu:** Cynnwys sylwadau gan Ddatganiadau Sicrwydd Cyfarwyddwyr Cyffredinol yn yr iteriad nesaf o'r datganiad llywodraethu (Helen Morris**)**

4.3 Caiff y Datganiad Llywodraethu ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r Adroddiad Rheoli Grantiau fel y cytunwyd gynt yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

**Cam gweithredu :** sicrhau bod croesgyfeirio rhwng y GS a'r Adroddiad Rheoli Grantiau (Helen Morris/Gawain Evans)

4.4 Gofynnwyd i Helen Morris hefyd ystyried y canlynol o dan y penawdau perthnasol:

<u>Awdurdodau Lleol</u>

- Ymyriad Powys

**Cam gweithredu:** Helen Morris i gael manylion i'w hystyried. (Andrew Goodall)

<u>Risgiau</u>

- Brexit;
- Diwygio Addysg
- Sgiliau a Pherfformiad

<u>Crynodeb Sicrwydd</u>

- Cyfeiriadau ar Strwythurau Gwneud Penderfyniadau Uwch.
- Compendiwm Tystiolaeth: mae hwn yn cael ei lunio ac fe gaiff ei ddarparu gyda'r iteriad nesaf o'r GS yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf

**cam gweithredu :** iteriad nesaf o'r GS i'w gyflwyno i gyfarfod mis Gorffennaf. (Helen Morris)

**5. Adroddiadau Is-bwyllgorau.**

5.1 Cyflwynodd Ann Keane, Cyfarwyddwr Gweithredol, adroddiad ar y cyfarfod ARAC blaenorol. Gofynnodd i'r Bwrdd nodi bod y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) wedi cael ei ailenwi a hysbysodd y Bwrdd am y newid i'r aelodaeth a'r cynlluniau i ailgyfansoddi ARACs Grŵp ym mis Medi.

5.2 Dywedodd Ann fod nifer cyffredinol yr archwiliadau yn Llywodraeth Cymru wedi gostwng, ond bod safbwyntiau ar draws archwiliadau ar y raddfa sicrwydd pedwar pwynt yn dal yn gyson ac yn sefydlog. Roedd saith o adroddiadau "sicrwydd cyfyngedig" yn y cyfnod. Mae cynllun archwilio tair blynedd yn cael ei lunio, ac mae Cyfarwyddwyr Cyffredinol wedi cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar y cynllun hwn. Bydd cyfarfod eithriadol y tu allan i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf i ystyried cyfrifon Llywodraeth Cymru, ac mae'r cyfarfod nesaf wedi'i amserlennu ar gyfer Awst 2018.

5.3 Roedd yr Ysgrifennydd Parhaol am ddiolch i Ann Keane am gytuno i gael ei phenodi'n gadeirydd ARAC, ac am y newyddion diweddaraf.

5.4 Nid oedd diweddariad ar Fwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaeth oherwydd absenoldeb ei gadeirydd, David Richards. Oherwydd pryderon ynghylch y pwysau ar Gymhwysedd Deddfwriaethol o ganlyniad i Brexit, rhoes yr Ysgrifennydd Parhaol sicrwydd i'r Bwrdd y byddai diweddariad cynhwysfawr yn y cyfarfod nesaf

**Cam gweithredu:** Diweddariad cynhwysfawr ar y Bwrdd Cymhwysedd Deddfwriaethol yn y cyfarfod nesaf. (David Richards)

**DIWEDD**

**Swyddfa Breifat yr Ysgrifennydd Parhaol, 15 Mehefin 2018**

**Camau gweithredu yn deillio o gyfarfod y Bwrdd ar 8 Mehefin 2018**

| GWEITHREDU | SWYDDOG ARWEINIOL | Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF |
|---|---|---|
| **Ffyniant i Bawb** | | |
| Papur ar Ffyniant i Bawb i'w gyflwyno yng nghyfarfod mis Gorffennaf. | Jo Salway | ar y gweill, papur wedi'i gomisiynu ac i fynd i'r Cabinet ar 10 Gorffennaf 2018. |
| Busnes y Llywodraeth | | |
| Ystyried cyfraniad Cyfarwyddwyr Anweithredol at sesiynau Herio'r Cabinet. | Yr Ysgrifenyddiaeth | Ar y gweill. |
| Cynllunio Busnes Corfforaethol i'w ystyried mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol. | Yr Ysgrifenyddiaeth | Ychwanegwyd at Agenda'r Bwrdd yn y Dyfodol |
| **Trefniadau Pontio'r UE** | | |
| Bydd y Diweddariad ar Gronfeydd Strwythurol yr UE yn cynnwys dewisiadau lliniaru risg yn ymwneud â gwamaliadau posibl yn y gyfradd gyfnewid. | Peter Ryland | Ar y gweill |
| **Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft** | | |
| Diwygiadau fel y cytunwyd arnynt i'w hystyried, a'r iteriad nesaf o'r GS i'w gyflwyno i gyfarfod mis Gorffennaf. | Helen Morris | Ar y gweill |
| **Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaeth** | | |
| Sicrhau bod y diweddariad yn dod i'r Bwrdd nesaf | David Richards | Ar y gweill, eitem reolaidd. |

**Camau sydd heb gael eu gweithredu 2017-18**

| CAM GWEITHREDU | SWYDDOG ARWEINIOL | Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF |
|---|---|---|
| **Strategaeth Leoli** | | |
| Sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd ym Merthyr Tudful, yn enwedig o'r rhaglen beilot ar weithio ystwyth, yn | Paul Sullivan | Ar y gweill, gwaith yn mynd rhagddo fel rhan o'r diweddariad o gynnig y |

| | | |
|---|---|---|
| cael eu hymgorffori yn y strategaeth. | | Strategaeth Leoli. |
| Nodi ac ystyried y gwersi a ddysgwyd o sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru. | Paul Sullivan | Ar y gweill, gwaith yn mynd rhagddo fel rhan o'r diweddariad o gynnig y Strategaeth Leoli. |
| Y cynigion ar gyfer y Strategaeth Leoli i gael eu diweddaru a'u paratoi i'w hystyried gan y Prif Weinidog newydd. | Paul Sullivan | Ar y gweill, y gwaith yn mynd rhagddo. |
| **Y Gofrestr Risg Corfforaethol** | | |
| Papur i'w Nodi i'w baratoi ar gyfer y Bwrdd ar y cynnydd yn erbyn y 30 o argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad o Gyrff Hyd Braich. | Peter Kennedy/ Julia Douch | Yn parhau: Julia Douch yn paratoi ymateb, i'w glirio gan Peter Kennedy. |